**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**12 MEDI 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 12 Medi 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Y Cynghorwyr: | **Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)**<br>Tina Claydon, David Coggins Cogan, Bill Crease, Gladys Healey, Ian Hodge, Alasdair Ibbotson, Gina Maddison, Allan Marshall, Billy Mullin, Vicky Perfect a Rob Davies (yn dirprwyo dros Jason Shallcross) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, David Healey, Dennis Hutchinson, Andrew Parkhurst a Sam Swash, a oedd yn bresennol fel arsylwyr |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), y Prif Weithredwr a Rheolwr Corfforaethol y Rhaglen Gyfalaf ac Asedau |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol a Chaffael), y Cynghorydd Linda Thomas (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol), Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol a Rheolwr Corfforaethol Pobl a Datblygu Sefydliadol<br><br>Swyddog Gweithredol Strategol ar gyfer cofnodion 33-35<br>Andrea Powell o'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru ar gyfer cofnod 35<br>Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu) a Chydlynydd Gofal Iechyd Parhaus ar gyfer cofnod 36<br>Rheolwr Refeniw a Chaffael ar gyfer cofnod 38<br>Rheolwyr Cyllid Strategol ar gyfer cofnod 39<br>Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg, ac Ymgynghorydd Perfformiad Strategol ar gyfer cofnodion 40-42<br>Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid ar gyfer cofnod 43 |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm |

## 28. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

29. **COFNODION** **(Dolen i'r recordiad)**

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2024, 19 Gorffennaf 2024 a 7 Awst 2024 fel cofnod cywir.

30. **OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad am gynnydd camau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol.

Cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

31. **RHAGLEN WAITH** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Rhaglen Waith y Pwyllgor i'w hystyried, a byddai'n rhestru'r eitemau sydd ym mharagraff 1.04 yr adroddiad.

Yn unol â chais, byddai eitem am Reoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael ei rhestru, a byddai adroddiad am y tân diweddar yn Synthite Ltd yn cael ei rannu ym mis Hydref / Tachwedd.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith, fel y'i diwygiwyd; a

(b) Rhoi awdurdod i Reolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

32. **AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN**

Cytunwyd i amrywio trefn y rhaglen i ymdrin ag eitemau 15 a 16 yn gynt er mwyn caniatáu i'r swyddog perthnasol fod yn bresennol.

33. **Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYNNYDD GWERTH CYMDEITHASOL** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Swyddog Gweithredol Strategol adroddiad ar ddata perfformiad gwerth cymdeithasol ar gyfer chwe mis olaf blwyddyn ariannol 2023/24. Cytunodd i ymdrin ag ymholiadau am wariant lleol disgwyliedig trwy gontract a chostau uwch i'r Cyngor sy'n deillio o werth cymdeithasol. Byddai'r ddau'n cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad olrhain camau gweithredu.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r perfformiad cadarnhaol a gyflawnwyd wrth greu gwerth cymdeithasol ar gyfer chwarter tri a phedwar blwyddyn ariannol 2023/24.

## 34. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (BGC) SIR Y FFLINT A WRECSAM 2023/24 (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Swyddog Gweithredol Strategol adroddiad blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam ar gyfer 2023/24 yn unol â gofynion canllawiau statudol.
Cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi darpariaeth Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir y Fflint a Wrecsam 2023/24.

## 35. ADRODDIAD EFFAITH CRONFEYDD SIR Y FFLINT 2024 (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Swyddog Gweithredol Strategol yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gyda Chronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint a Chronfa Ddegwm Sir y Fflint – y ddwy'n cael eu harolygu gan Sefydliad Cymunedol Cymru.

Ar ran Sefydliad Cymunedol Cymru, crynhodd Andrea Powell y pwyntiau allweddol a byddai'n darparu ymateb ar wahân i egluro'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd yn 2023/24 a ddangosir yn yr adroddiad eglurhaol, a'r hyn sydd yn y Trosolwg o'r Gronfa. Cytunodd y Swyddog Gweithredol Strategol i ymateb ar wahân i ymholiad am drefniadau llywodraethu ar gyfer Cronfa Ddegwm Sir y Fflint.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys Adroddiad Effaith Sir y Fflint, Ebrill 2024, ac yn cefnogi gwaith Sefydliad Cymunedol Cymru; a

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r lle gwag presennol ar y panel grantiau ar gyfer cynrychiolydd yr Aelodau Etholedig, ac yn cefnogi hyrwyddo'r cyfle hwn i Aelodau.

## 36. PECYNNAU GOFAL A ARIENNIR AR Y CYD – ADRODDIAD GYDA'R WYBODAETH DDIWEDDARAF (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu) adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y ddyled hirdymor gyfredol gyda Bwrdd

Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) mewn perthynas â phecynnau Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn Sir y Fflint.  Cyflwynwyd y Pwyllgor i Helen Brockley, Cydlynydd Gofal Iechyd Parhaus, a ddarparodd wybodaeth am y fframwaith cenedlaethol a phrosesau.

Diwygiwyd yr argymhellion i adlewyrchu'r drafodaeth.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol yn ymwneud ag anfonebau Gofal Iechyd Parhaus sydd heb eu talu i'r Cyngor gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi gwybodaeth ynglŷn â Gofal Iechyd Parhaus y GIG – Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru a'i broses parthed anghydfod ac apelio; a

(c) Bod yr Uwch Reolwr a'r Cydlynydd yn cyfarfod â Chadeirydd y Pwyllgor i lunio llythyr i'r Bwrdd Iechyd a'r Weinyddiaeth Iechyd ar ran y Cadeirydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 37. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2025/26 (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar gam cyntaf datblygu'r gyllideb ar gyfer 2025/26 cyn ei ystyried gan y Cabinet.

Wrth ymateb i sylwadau ynglŷn ag ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, cytunodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) i gysylltu â'r trysorydd ynglŷn ag unrhyw amrywiad posibl.

Byddai swyddogion Cyllid yn gweithredu ar gais am i gyllidebau gwasanaethau ddangos canran y costau hynny yng nghyllideb gyffredinol y Cyngor ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol (fel y gwnaed gyda chyllidebau a oedd wedi eu dirprwyo i ysgolion).

Diwygiwyd yr argymhelliad i adlewyrchu'r cynigion ychwanegol a gefnogwyd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y sylwadau am y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2025/26 yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet pan fydd yn ystyried yr adroddiad;

(b) Bod y Cyngor yn ceisio rhoi blaenoriaeth i amddiffyn darpariaeth gwasanaethau rheng flaen hanfodol; a

(c) Bod gwahoddiad yn cael ei estyn i'r Prif Swyddog Tân i gynrychiolydd fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn yn y dyfodol.

**38. CYNLLUN PREMIWM TRETH Y CYNGOR I AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR** (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) a Rheolwr Refeniw a Chaffael adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfraddau premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

Yn dilyn trafodaeth, diwygiwyd yr argymhelliad i adlewyrchu'r cynigion ychwanegol a gyflwynwyd a'u cefnogi.  Gwnaed cais am wybodaeth gymharol gan Awdurdodau eraill ar effaith cyflwyno cynllun codi premiwm cynyddol ar gartrefi gweigion hirdymor.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn argymell:

(a) Cynyddu cyfradd premiwm Treth y Cyngor o 75% i 100% ar eiddo gwag hirdymor a chadw cyfradd bresennol y premiwm, sef 100%, ar ail gartrefi;

(b) Ystyried cyflwyno dull cynyddol ar gyfer cyfraddau premiwm ar eiddo gwag hirdymor o fis Ebrill 2025; ac

(c) Ystyried eithriad disgresiynol pellach o'r premiwm mewn amgylchiadau lle y gall unigolyn sy'n prynu eiddo gwag hirdymor fod yn agored i'r premiwm o'r adeg pan fo'n prynu'r eiddo ond ei fod yn gwneud ymdrech wirioneddol i ddod â defnydd yn ôl i'r eiddo. Bydd hyn yn sicrhau na fyddai prynwyr dan anfantais.

*Ar y pwynt hwn, cafwyd seibiant byr yn y cyfarfod.*

**39. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2024/25 (MIS 4) A RHAGLEN GYFALAF 2024/25 (MIS 4)** (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Rheolwyr Cyllid Strategol adroddiadau ar sefyllfa mis 4 2024/25 Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Rhaglen Gyfalaf, cyn i'r Cabinet eu hystyried.

Yn ystod y drafodaeth codwyd pwyntiau ynglŷn â gorwario sylweddol annisgwyl yn y cam cynnar hwn, yr angen i roi gwybod am ganlyniadau lobïo Llywodraeth Cymru, a'r defnydd o'r term 'arbedion effeithlonrwydd'.

Wrth ymateb i'r sefyllfa derfynol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn parthed y Cyfrif Refeniw Tai, ceisid cael ymateb gan bortffolio Tai ynghylch a fyddai rhywfaint o'r balans terfynol heb ei glustnodi yn gallu cael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2024/25 (mis 4), bod y sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet; ac

(b) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2024/25 (mis 4), nid oes gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau penodol i'w codi gyda'r Cabinet.

**40. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24 I GYNNWYS ADRODDIAD PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN CYNLLUN Y CYNGOR 2023/24 (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad yn ystyried Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2023-24, gan nodi perfformiad diwedd blwyddyn Cynllun y Cyngor (2023-28) ar gyfer 2023-24. Darparodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol y wybodaeth ddiweddaraf am ystadegau data ers cyhoeddi'r rhaglen.

Cefnogwyd yr argymhelliad ynghyd â chynnig ychwanegol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2023/24, wedi'i gyfuno ag Adroddiad Perfformiad Diwedd Blwyddyn Cynllun y Cyngor 2023/24, gan nodi'r perfformiad a gyflawnwyd; a

(b) Bod adroddiadau yn y dyfodol yn adlewyrchu perfformiad y Cyngor, gydag esboniadau os nad yw targedau'n cael eu cyrraedd, a sicrhau y gellir croesgyfeirio'r ddwy ddogfen yn haws er budd y darllenydd.

**41. PENNU AMCANION LLES (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad yn adolygu ymateb y Cyngor i'r pedwar argymhelliad a gynghorwyd gan Archwilio Cymru ar gyfer gwella, cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

Diwygiwyd yr argymhelliad i adlewyrchu'r drafodaeth hon.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried yr ymateb i'r argymhellion ar gyfer gwella, bod y Pwyllgor yn codi'r pwyntiau canlynol gyda'r Cabinet:

- Bod y Pwyllgor yn derbyn Argymhellion R1 a R4; a
- Bod y Swyddog Monitro a dau Aelod Cabinet yn adolygu'r cwestiynau a ofynnwyd gan Archwilio Cymru ac yn nodi siom y Pwyllgor nad oedd y cwestiynau a ofynnwyd ynglŷn ag Argymhellion R2 a R3 yn gysylltiedig â chyllidebau nac adnoddau.

**42. HUNANASESIAD CORFFORAETHOL 2023/24 (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar ganfyddiadau Hunanasesiad Corfforaethol 2023/24, yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer gwella.

Yn ystod trafodaeth ar ail gam y broses, cytunwyd y dylid rhoi'r cyfle i holl aelodau'r pwyllgorau a grybwyllwyd gymryd rhan mewn sesiynau herio yn y dyfodol.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn:

(a) Derbyn canfyddiadau Hunanasesiad Corfforaethol 2023/24;

(b) Derbyn y cyfleoedd ar gyfer gwella a nodwyd yn Hunanasesiad Corfforaethol 2023/24;

(c) Awgrymu cynnwys Aelod Cabinet ar y bwrdd prosiect[1]; a

(d) Gofyn am ychwanegu'r adran ar Ymgynghori ac Ymgysylltu i'r adroddiad ar gyfer eleni a'r blynyddoedd i ddod.

**43. ADRODDIAD BLYNYDDOL SIR Y FFLINT YN CYSYLLTU 2023-24 (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) a Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid adroddiad yn nodi perfformiad Sir y Fflint yn Cysylltu yn ystod 2023-24, cyn i'r Cabinet ei ystyried.

Yn dilyn trafodaeth ar y cynigion, cefnogwyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi perfformiad blynyddol Sir y Fflint yn Cysylltu ar gyfer 2023-24; ac

(b) Yng ngoleuni'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynd i Ganolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu, bod y Pwyllgor yn cefnogi:

i) adolygu'r gwasanaeth, gan ddechrau gydag ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â pham mae gostyngiad yn y defnydd, a pha swyddogaethau y gallai / dylai'r gwasanaeth eu darparu; a'r
ii) ymgynghoriad, a ddylai hefyd archwilio'r effaith bosibl ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig pe bai'r oriau agor yn cael eu lleihau i adlewyrchu'r ffaith bod llai o ddefnydd arnynt gan breswylwyr.

---

[1] Yn dilyn y cyfarfod, eglurwyd nad yw'r bwrdd prosiect ar waith mwyach ar gyfer y darn hwn o waith; fodd bynnag, mae cyfraniad gan Aelodau Cabinet, aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ac aelodau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhan o'r broses adolygu.

**44. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 2.50pm)

……………………………………………………

**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell weddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home